| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **23 Ionawr 2017** |
| **TEITL :** | **Ceisiadau am oddefeb** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y ceisiadau** |

**Cefndir**

1 Atodaf gopi o ffurflen gais y Cyng. Dilwyn Morgan, Aelod Y Bala, Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad ag ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Ysgol y Berwyn, Y Bala. Mae'r aelod wedi nodi dau fuddiant ar ei ffurflen.

2. Ni fyddai'r ffaith ei fod yn llywodraethwr un o'r ysgolion yn ei rwystro rhag cymryd rhan mewn trafodaethau. Mae'r Cod Ymddygiad yn rhoi caniatâd penodol i lywodraethwyr a benodwyd gan y Cyngor i gymryd rhan, heblaw lle bydd ceisiadau am ganiatâd (e.e. cynllunio) yn cael eu trafod. Serch hynny mae'r ffaith fod ganddo ŵyr yn un o'r ysgolion yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ac felly fel canlyniad ni all gymryd rhan.

3. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol (gweler nodiadau ar gefn y ffurflen).

**Penderfyniadau Blaenorol y Pwyllgor**

4. Mae'r Pwyllgor yn y gorffennol wedi gosod canllawiau i'w hystyried wrth benderfynu ar geisiadau yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion, sef:

*"Y byddai 'tad/mam, taid/nain, ŵyr/wyres, gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau"*

4. Mae'r Pwyllgor serch hynny wedi caniatáu goddefebau mewn sefyllfaoedd o'r fath i alluogi aelodau i gymryd rhan mewn trafodaethau lleol. Yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2015 caniatawyd goddefeb i aelod oedd a buddiant tebyg ar y telerau canlynol:

*"PENDERFYNWYD caniatáu'r cais am oddefeb i'r Cynghorydd siarad, ond nid i bleidleisio, mewn cyfarfodydd dan nawdd y Cyngor ...... sy'n cael eu cynnal yn yr ardal, ond na chaiff siarad, na bod yn bresennol na phleidleisio mewn cyfarfod o'r Cyngor, Cabinet nac unrhyw un o'i bwyllgorau a'i bod yn ofynnol iddo ddatgan yn glir ymhob cyfarfod y mae'n cymryd rhan ynddo ei fod wedi cael goddefeb, gan egluro union natur y cyfyngiadau arno, a bod hynny'n cael ei nodi yng nghofnodion y cyfryw gyfarfodydd"*

## Canllawiau'r Ombwdsmon

5.  Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau yn gyffredinol:

*"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol."*

6. Cyflwynir unrhyw wybodaeth bellach fydd wedi ei dderbyn ynglŷn â'r ceisiadau yn y cyfarfod.

## Argymhelliad

7. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar y ceisiadau.